**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**14 Rhagfyr 2015**

**CYLLIDEB YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB 2016-17**

**Adroddiad gan Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi'r diweddaraf i aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub am y cynnydd wrth ddatblygu cyllideb ddrafft yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2016-17, a chyflwyno'r argymhellion a wnaed gan y Panel Gweithredol fel rhan o'r broses.

## Cefndir

2 Cafodd adroddiad ar yr opsiynau o ran y gyllideb a'r cynnydd a wnaed wrth ddatblygu cyllideb refeniw ddrafft, ei gyflwyno i'r Panel Gweithredol ar 26 Hydref 2015. Yn yr adroddiad hwnnw, esboniwyd i'r Aelodau na fyddai modd llunio'r adroddiad manwl arferol ar y gyllideb ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Awdurdod Tân ac Achub ar 14 Rhagfyr 2015. Y rheswm am hyn yw fod cyllideb haf ac adolygiad o wariant wedi digwydd yn dilyn yr etholiad cyffredinol yn y gwanwyn. Nid adroddwyd canlyniad yr adolygiad o wariant tan 25 Tachwedd 2015. Felly, nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu cyhoeddi ei chyllideb ddrafft hi tan 8fed Rhagfyr ac nid oedd y setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol ar gael tan 9 Rhagfyr 2015.

3 Penderfynwyd wedi hynny mai adroddiad cynnydd fyddai'r adroddiad hwn, i nodi'r rhagdybiaethau y mae'r gyllideb yn cael ei datblygu ar eu sail, ac y dylid cynnal cyfarfod arbennig o'r Awdurdod Tân ac Achub ar 25 Ionawr 2016 er mwyn cytuno'n fanwl ar gyllideb 2016-17.

**Gwybodaeth**

4 Yng nghyfarfod diwethaf yr Awdurdod Tân ac Achub ar 21 Medi 2015, cytunodd yr Aelodau i gefnogi amcanion gwella drafft yr Awdurdod ar gyfer 2016-17 i'w cyhoeddi i ddiben ymgynghori. Mae'r ail o'r amcanion hyn yn nodi strategaeth ariannol yr awgrymir y gallai'r Awdurdod seilio ei gynllun ariannol tymor canolig nesaf arni. Cynigir y dylai'r Awdurdod newid ei amcan gwella presennol, sef:

> "Gweithredu cynllun ariannol 3 blynedd ar gyfer 2014-15 i 2016-17 sy'n ariannu lefel gyfredol y gwasanaeth, ond sy'n ceisio cyfyngu ar y gost o wneud hynny i gyfateb i £1 y flwyddyn y pen yn ychwanegol."

i'r canlynol:

> "Gan gydnabod y gostyngiad a ddisgwylir yng nghyllid llywodraeth leol, bydd yr Awdurdod yn datblygu strategaeth ariannol 3 blynedd lle bydd rhewi'r gyllideb yn egwyddor ganolog."

5 Oherwydd cyflwyniadau ynglŷn â phwysau ariannol a'r rhagolygon cyllid i Weithgor y Cynllun Gwella ar 20 Gorffennaf 2015 ac i'r Pwyllgor Archwilio ar 14 Medi 2015, mae'r Aelodau'n ymwybodol pa mor heriol fydd hi i sicrhau cyllideb wedi'i rhewi. Cafwyd trafodaethau helaeth yn y ddau gyfarfod ynglŷn â ffyrdd o gau'r bwlch o £1.9 miliwn yn y gyllideb dros y tair blynedd nesaf. Mae'r Aelodau'n ymwybodol fod hyn yn anos fyth gan fod yr Awdurdod eisoes wedi rhewi ei gyllideb rhwng 2011-12 a 2014-15. Yn ystod y blynyddoedd hynny, canfu'r Awdurdod £3 miliwn o arbedion ac mae wedi gweld maint ei weithlu, gan gynnwys rheolwyr, diffoddwyr tân, staff diogelwch cymunedol a staff cefnogol, yn gostwng 9%.

6 Ond roedd Aelodau'r Panel Gweithredol yn argymell y dylid llunio cyllideb 2016-17 ar sail y lefel gyfredol o wasanaethau ac y dylai'r Awdurdod ystyried tanategu cyllideb 2016-17 gyda chyllid o'r cronfeydd cyffredinol wrth gefn.

7 Mae'r Trysorydd yn cynghori y byddai defnyddio'r cronfeydd hyn yn golygu risg sylweddol i'r Awdurdod yn y tymor hir. Ei gyngor ef yw y dylid cadw 5% o gyfanswm y gyllideb fel cronfa gyffredinol wrth gefn drwy'r amser, ac y byddai hyn yn cyfateb i £1.5 miliwn ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

8 Gan gydnabod bod angen amser i ddatblygu a gweithredu unrhyw ostyngiadau i'r Gwasanaeth, mae'r Trysorydd yn derbyn y gellid dod â'r cronfeydd cyffredinol i lawr i 3% a defnyddio cronfeydd eraill gyda'r bwriad o'u hail-lenwi dros amser drwy tanwariannau sy'n cael eu rheoli o fewn y flwyddyn. Mae yna £1,816,836 mewn cronfeydd cyffredinol ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu y byddai modd defnyddio £857,000 i danategu'r gyllideb.

9 Mae'r bwlch rhwng cyllideb wedi'i rhewi a chyllideb barhau ar gyfer 2016-17 yn £1.3 miliwn o leiaf. Mae hyn yn cynnwys pwysau'r costau canlynol:

- £519,000 o gostau gweithwyr (1% o ddyfarniad cyflog a cholli 3.4% o arbedion Yswiriant Gwladol o ganlyniad i newidiadau yn y rheoliadau pensiwn). Mae hyn yn is na'r hyn a adroddwyd o'r blaen oherwydd na fydd nifer o'r swyddi sy'n wag ar hyn o bryd bellach yn cael eu llenwi.

- £469,000 o ffioedd cyfalaf, sy'n uwch na'r hyn a adroddwyd o'r blaen oherwydd mae nawr yn seiliedig ar wariant o £10 miliwn ar gwblhau prosiectau Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a Nefyn o fewn yr un flwyddyn ariannol.

- £223,000 i ail-lenwi'r cronfeydd wrth gefn o ganlyniad i danategu.

- £97,000 o chwyddiant cyffredinol penodol.

10 Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw leihad mewn grantiau gan Lywodraeth Cymru nac unrhyw newidiadau deddfwriaethol a allai gynyddu costau neu alwadau ar y Gwasanaeth. Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod yn derbyn £240,000 o grant Lleihau Risg Cymunedol, £416,000 tuag at gost system gysylltiadau Airwave a £486,000 o grant Dimensiynau Newydd. Mae'n arbennig o bwysig bod y ddau grant olaf yn parhau oherwydd maent yn cyfrannu at gynnal cydnerthedd cenedlaethol, ar adeg o gynnydd yn y bygythiad i ddiogelwch y wlad.

**Argymhellion**

11 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r heriau sy'n gysylltiedig â gosod cyllideb fantoledig ar gyfer 2016-17;

(ii) cadarnhau eu bod yn dymuno llunio cyllideb 2016-17 ar sail lefel gyfredol y gwasanaethau;

(iii) derbyn argymhellion y Panel Gweithredol sef bod yr Awdurdod yn ystyried tanategu cyllideb 2016-17 gydag arian o'r cronfeydd cyffredinol, gan gadw mewn cof fod hynny'n creu risgiau sylweddol ar gyfer y blynyddoedd i ddod.